# Prosiect: Datblygu Fframwaith Gwerthuso ar gyfer Dinas Llên Aberystwyth Ceredigion (Dinas Llên)

## Cefndir

Dyfarnwyd dynodiad Dinas Llên UNESCO i Aberystwyth Ceredigion ym mis Hydref 2025. Mae'r bartneriaeth a arweiniodd yr ymgyrch bellach yn ceisio sefydlu prosesau a strwythurau, gan gynnwys fframwaith gwerthuso sy'n cyfleu hyd a lled y gweithgareddau perthnasol ac sy'n mesur y manteision diriaethol ac anniriaethol penodol i ardal Aberystwyth Ceredigion, ond hefyd i Gymru gyfan.

Gweler y ddogfen gais am ragor o fanylion, yn enwedig o ran y dulliau thematig dan sylw.

Fel Dinas Greadigol UNESCO mae Aberystwyth Ceredigion yn awyddus i gyflwyno ystod eang o brosiectau llenyddol a diwylliannol gyda phartneriaid a chynulleidfaoedd amrywiol. Er bod prosiectau unigol yn aml yn cynnwys gweithgarwch gwerthuso, rydym yn chwilio am ddull mwy cyson a strategol sy'n gydnaws â'n hamcanion cyffredinol ni a blaenoriaethau UNESCO.

Bydd y comisiwn hwn yn ein helpu i ddatblygu fframwaith gwerthuso sydd:

- Yn glir ac ymarferol
- Yn gallu cael ei ddefnyddio ar gyfer prosiectau mawr a mân
- Yn ddefnyddiol ar gyfer dysgu a gwella, nid adrodd yn unig

## Amcanion y comisiwn

Dylai'r fframwaith gwerthuso wneud y canlynol:

- Cofnodi effaith economaidd, diwylliannol, cymdeithasol a chreadigol ein gwaith
- Cefnogi prosesau dysgu a myfyrio ymhlith staff a phartneriaid
- Cynhyrchu tystiolaeth ar gyfer cyllidwyr, rhanddeiliaid ac adroddiadau UNESCO
- Bod yn gymesur ac yn realistig, gan ystyried ein hadnoddau

## Prif dasgau'r gwaith

Bydd disgwyl i'r ymgynghorydd wneud y canlynol:

- Ymchwilio ac Adolygu (gan gynnwys edrych ar fframweithiau Dinasoedd Llên eraill yn y DG)
- Ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol drwy weithdai
- Datblygu Fframwaith
- Diffinio cwestiynau gwerthuso sy'n gydnaws â'n hamcanion
- Cynnig dangosyddion craidd (meintiol ac ansoddol)
- Argymell methodolegau ac adnoddau priodol
- Mynd i'r afael ag ystyriaethau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

## Allbynnau disgwyliedig

- Dogfen fframwaith gwerthuso ysgrifenedig
- Adnoddau/templedi ategol (fel y bo'n briodol)
- Cyflwyniad neu weithdy i staff (dewisol, os dymunir)

## Canllawiau ymarferol

- Darparu canllawiau clir ar sut y dylid defnyddio'r fframwaith
- Awgrymu adnoddau/templedi addasadwy
- Cynnig cyngor ar ymgorffori gwerthuso yn y gwaith o gynllunio prosiectau

## Amserlen

- Penodi: Mis Mawrth 2026
- Cyfnod ymchwil: 1 Ebrill 2026
- Fframwaith drafft: 1 Mai 2026
- Cyflwyno terfynol: 1 Mehefin 2026

## Cyllideb

Cyfanswm y gyllideb ar gyfer y comisiwn hwn yw £25,000, gan gynnwys yr holl ffioedd, treuliau a TAW (os yw'n berthnasol).

## Sgiliau a phrofiad angenrheidiol

- Profiad o waith gwerthuso ym myd y celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth
- Dealltwriaeth o waith sy'n canolbwyntio ar le a chymunedau
- Sgiliau cyfathrebu a hwyluso cryf
- Y gallu i gynhyrchu dogfennaeth glir, hygyrch

## Sut i wneud cais

Dylai ymgeiswyr gyflwyno:

- Cynnig 3 tudalen ar y mwyaf, yn amlinellu'r dull a'r fethodoleg
- Profiad perthnasol ac enghreifftiau o waith tebyg
- Amserlen arfaethedig
- Dadansoddiad manwl o'r ffioedd

**Dylid e-bostio'ch cais ar ffurf Word neu PDF** at cais@dinasllen.cymru, gyda thestun DINAS LLÊN – FFRAMWAITH GWERTHUSO. **Dyddiad cau: canol dydd, 31 Mawrth 2026**.

Mae croeso i chi gyflwyno eich cais yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

# Meini prawf asesu

Byddwn yn asesu'r cynigion ar sail:

- Ansawdd ac addasrwydd y dulliau gweithredu
- Profiad perthnasol
- Dealltwriaeth o'r briff
- Gwerth am arian